CLWB CYMRU

CYFRYNGAU CYMDEITHASOL

Mae gwefannau cyfryngau cymdeithasol fel Facebook, Twitter, Instagram a TikTok yn adnoddau gwych ar gyfer cysylltu ag aelodau presennol neu ddarpar aelodau'r clwb ac ar gyfer arddangos bywyd a gweithgareddau eich clwb.

Nid oes rhaid i adeiladu dilyniant ar gyfryngau cymdeithasol fod yn gymhleth na chymryd llawer o amser. Dyma rai awgrymiadau cyflym i'ch helpu chi i ddechrau arni neu i wella'r hyn rydych chi'n ei wneud eisoes.

CYNGOR CYFFREDINOL

Gwneud un peth yn dda iawn

Os yw eich amser yn brin, buddsoddwch ef mewn creu proffil eich clwb ar un platfform. Mae'n llawer gwell cael un proffil diweddar lle rydych chi'n ymgysylltu'n brysur â'ch dilynwyr ac yn annog rhai newydd i ymuno na lledaenu'ch hun yn denau ar draws tri phlatfform neu fwy.

Dewis eich platfform yn ddoeth

Mae pobl yn rhyngweithio â'r gwahanol blatfformau cyfryngau cymdeithasol mewn gwahanol ffyrdd, ac mae'n bwysig eich bod chi'n ystyried manteision ac anfanteision yr hyn mae hynny'n ei olygu i chi fel clwb a gwirfoddolwr. Er enghraifft, mae Twitter yn sgyrsiol iawn ac yn golygu y gallai fod angen i chi bostio llawer mwy nag y byddech chi ar Facebook ar unwaith, er mwyn i bobl weld eich negeseuon.

Bod yn rhan o'r sgwrs

Ymatebwch i gwestiynau a sylwadau eich dilynwyr os yw hynny'n briodol. Nid oes rhaid i hyn gymryd llawer o amser, ond bydd dangos i'ch dilynwyr eich bod yn ymgysylltu ac yn ymatebol yn eu hannog i ryngweithio mwy â chi, a fydd, yn ei dro, yn helpu i ledaenu'ch neges ymhellach fyth.

Rhoi ychydig o amser i greu cynllun

Bydd treulio ychydig o amser ymlaen llaw yn cynllunio'ch negeseuon yn eich helpu i fod yn fwy cyson a chydlynol ar gyfryngau cymdeithasol. Gwnewch siart syml a nodi sawl gwaith yr wythnos neu'r mis rydych chi am roi negeseuon ac ar ba ddyddiau. Meddyliwch am y gymysgedd o gynnwys dros y mis a'r gwahanol bynciau y gallech chi siarad amdanyn nhw. Cynlluniwch negeseuon ar gyfer digwyddiadau a gemau sydd i ddod. Gallwch hyd yn oed ysgrifennu testun a dod o hyd i luniau ymlaen llaw a'u gosod i'w postio'n awtomatig, yn enwedig y rhai nad ydynt yn dibynnu ar ganlyniadau gemau.

Defnyddio lluniau a fideos lle bynnag y bo modd

Mae negeseuon ar gyfryngau cymdeithasol sy'n cynnwys lluniau neu fideos ynghyd â geiriau yn cael mwy o ymgysylltu a rhyngweithio. Mae mor syml â hynny!

Postio negeseuon ar adegau pan fydd pobl yn fwyaf tebygol o fod ar-lein

Mae'r rhan fwyaf o bobl yn tueddu i edrych ar gyfryngau cymdeithasol amser cinio, ac eto yn y prynhawn / yn gynnar gyda'r nos. Ceisiwch bostio o gwmpas yr amseroedd hyn i weld a fyddwch yn cael mwy o ymateb i'ch negeseuon. Unwaith eto, gellir trefnu negeseuon ymlaen llaw.

Defnyddio eich cynnwys i greu darlun o fywyd cyfan y clwb, y bobl ynddo a'r hyn rydych chi'n sefyll drosto

Mae eich presenoldeb ar y cyfryngau cymdeithasol yn ffordd wych o ddod â hanfod eich clwb yn fyw. Wrth gwrs dylech chi bostio am chwaraewyr, gemau a chanlyniadau - ond hefyd meddwl y tu hwnt i'r rhain, am y pethau eraill rydych chi'n eu gwneud. Mae'r cyfryngau cymdeithasol yn lle gwych i hyrwyddo amrywiaeth y bobl a'r gweithgareddau mae eich clwb yn ymwneud â nhw. Postiwch am eich digwyddiadau cymdeithasol, a chydnabod a diolch i'ch gwirfoddolwyr, a thynnu sylw at gyflawniadau eich aelodau y tu hwnt i bêl droed (er enghraifft, tynnu sylw a chanmol aelodau iau pan fyddant yn llwyddo yn eu harholiadau).







Byddwch yn ofalus:

Byddwch yn ymwybodol na fydd rhai rhieni eisiau i luniau o'u plant gael eu postio ar gyfryngau cymdeithasol efallai, yn enwedig y rhai mewn grwpiau oedran iau. Os ydych chi'n ansicr, gofynnwch am ganiatâd cyn i chi bostio. Mae'n arfer da i glybiau ddefnyddio ffurflen caniatâd ffotograffiaeth. Edrychwch ar git Diogelu CBDC sydd ar gael yn https://www.faw.cymru/en/about-faw/pitch/safeguarding/

Ffyrdd syml o ledaenu'ch neges ymhellach

Rhai awgrymiadau i'ch helpu chi i ledaenu'ch cynnwys y tu hwnt i'ch dilynwyr uniongyrchol, heb wario arian ar hysbysebion na negeseuon hwb.

Dilynwch grwpiau cymunedol ac ardal lleol a phostiwch eich digwyddiadau ar eu tudalennau.

Tagiwch eich aelodau mewn lluniau a negeseuon os yw hynny'n briodol. Mae hyn yn rhoi mwy o siawns i'ch negeseuon gael eu gweld gan ffrindiau i ffrindiau.

Gofynnwch i aelodau'ch clwb rannu negeseuon pwysig, yn enwedig y rhai am ddigwyddiadau Clwb sy'n agored i'r gymuned neu raglenni tymor newydd. Mae gan ddefnyddwyr Facebook oddeutu 300 o ffrindiau ar gyfartaledd, felly gall eich aelodau chwarae rhan wych wrth rannu eich neges.

Ewch ati i gymell eich aelodau a'ch dilynwyr i'ch helpu chi i ledaenu'r gair. Gall syniadau syml fel rhoi coffi am ddim i'r person sy'n llwyddo i gael neges Clwb i chael ei rhannu fwyaf eich helpu chi i greu momentwm a chyswllt ychwanegol.

Defnyddiwch hashnodau sy'n berthnasol i'ch neges neu'ch ardal leol, sy'n trendio, neu sy'n boblogaidd mewn pêl droed er mwyn lledaenu'r gair yn ehangach.



EISIAU CAEL GWYBOD MWY?

Mae Glasbrint Facebook yn cynnwys rhai cyrsiau ar-lein am ddim i helpu i feithrin eich sgiliau ar draws Facebook ac Instagram: https://en-gb.facebook.com/business/learn

Hefyd mae gan Twitter rai adnoddau gwych ar-lein i'ch helpu chi i ddeall a defnyddio'r platfform yn well, gan gynnwys hanfodion defnyddio Twitter a thaflenni gwaith a phecynnau y gellir eu lawrlwytho: https://business.twitter.com/